

# CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL

O bosibl yn un o'r sectorau sy'n cynyddu a datblygu cyflymaf, mae technoleg ddigidol wrth galon busnes.

Mae mwy o swyddi na gweithwyr medrus felly mae cyflogwyr wastad yn edrych am recriwtiaid posibl sydd â'r sgiliau hyn. Os ydych yn ddatrysyr problemau, yn un sy'n meddu ar ddull gweithredu dadansoddol neu os oes gennych ddi-ddordeb yn y technolegau diweddaraf, yna dyma'r sector i chi! Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

## Datblygwr Meddalwedd

Gelwir y rhain hefyd yn Ddadansoddwyr / Rhaglenwyr, rydych yn gweithio gyda'r defnyddiwr olaf/cwsmer i ddeall eu gofynion. Byddwch yn dylunio, gosod a chynnal rhaglenni, systemau a chymwysiadau cyfrifiaduron sy'n helpu busnesau i redeg yn effeithiol.

## Dylunydd Gwefan

Mae dylunio gwefan yn gofyn creadigedd a llythrennedd cyfrifiaduron. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys dylunio, gosod a chodio gwefannau, gan sicrhau eu bod yn edrych yn dda, yn gweithredu'n dda ac yn hawdd i'w defnyddio.

## Cynorthwydd Desg Gymorth

Os ydych yn hoffi helpu pobl a dod o hyd i ddatrysiadau, beth am ddod yn gynorthwydd desg gymorth? Os oes gennych feddwl technegol a sgiliau cyfathrebu gwych, gallwch helpu defnyddwyr TG i ddatrys eu hanhawsterau.

## Telathrebu

Mae telathrebu yn golygu technoleg sy'n trosglwydo gwybodaeth, megis setiau teledu a llinellau ffôn. Mae ystod o swyddi'n bodoli o osod, profi ac atgyweirio systemau i gynorthwyo deiliaid contractau a defnyddwyr sydd ag ymholiadau.


## Dolenni Defnyddiol

[www.bcs.org](http://www.bcs.org)

BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG

[www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)

Gwefan Gyrfya Cymru



**£36,305**  
**£18.87/AWR**

CYFLOG  
NODWEDDIADOL AR  
GYFARTALED D YN Y  
DIWYDIANT HWN

**CYFANSWM  
Y SWYDDI YN  
Y DIWYDIANT  
HWN**

**28,455 CYMRU**  
**1,150,103 DU**



**BYDD ANGEN  
11,000  
O BOBL  
AR GYMRU YN Y SECTOR  
TECHNOLEG DDIGIDOL  
ERBYN 2022**

**CAIFF TECHNOLEG EI DDEFNYDDIO  
YMRON YM MHOB SECTOR. GOLYGA  
HYN OS YDYCH CHI'N ASTUDIO  
CYFRIFIADURA A THECHNOLEG  
DDIGIDOL, BYDDWCH YN GYMWYS  
AM SWYDDI MEWN ADEILADWAITH,  
BUSNES, Y CELFYDDYDAU A GOFAL ETC.**

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset/Gyrfa Cymru)

## Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Duration	BG	C	DC	T
TGCh (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓			
TGCh a Busnes (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	✓	
Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Technoleg Gwybodaeth (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd			✓	
Technoleg Gwybodaeth - Lefel 2/3	2 Flynedd	✓			
Technolegau Digidol Colegau Gyrfya - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	✓	
Cyfrifiadura Coleg Seiber - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓			
Cyfrifiadura - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓		
Cymorth Systemau TGCh - Lefel 2	1 Flwyddyn			✓	

Ymgaisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [admissions@colegwent.ac.uk](mailto:admissions@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

